GARETH EVANS





Enw: Gareth Evans

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Penparcau, Aberystwyth

Ble aethoch chi i'r ysgol? Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Ro'n i'n casáu cinio ysgol gymaint yn yr ysgol gynradd wnes i ddianc un amser cinio a cheisio prynu sglodion – heb arian!

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Doctor ac yna actor. Doedd gen i ddim digon o frêns ar gyfer y cyntaf a dim digon o dalent ar gyfer yr ail!

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Amhosib dewis gan imi ddarllen cyn gymaint o lyfrau gwahanol.

Beth yw eich diddordebau? Nifer, ond fy mhrif ddiddordebau yw hanes a ieithoedd

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Fy annwyl blant.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Fy annwyl blant.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu? Roedd gen i awydd gwneud erioed, ond o ddifri ar ôl dechrau gweithio i Radio Cymru – dechreuais ysgrifennu ar gyfer y radio a theledu ar ôl hynny.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Dwi wir ddim yn siŵr, ac mae'n dod ar adegau rhyfedd iawn.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Nofelau hanesyddol ydw i wedi'u hysgrifennu hyd yma, felly hanes, a sut mae rhai pethau wedi newid yn llwyr a phethau eraill ddim o gwbl.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Peidio poeni gormod am y drafft cyntaf – mae wastad modd gwella pob dim – ac, yn bwysig iawn, mwynhau!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur? Y peth gorau yw'r hyn sy'n digwydd wrth ysgrifennu – y ffordd mae'r cymeriadau a'r stori'n cydio yn rhywun – a'r peth gwaethaf yw'r ansicrwydd os yw'r hyn mae rhywun wedi ysgrifennu'n OK, tan fod rhywun arall yn ei ddarllen.

Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod? Gormod i'w henwi!

Hoff gymeriad o lyfr? Gweler uchod!

Hoff le? Pen Dinas, Penparcau, Aberystwyth

Hoff fwyd? Salad. Na, go iawn. Salad.

Hoff ffilm/rhaglen deledu? Pobol y Cwm, yn amlwg! (Gan mod i wedi bod yn ysgrifennu i'r gyfres ers Oes yr Arth a'r Blaidd)...

Hoff air? Bendigedig!

Superpower o ddewis? Medru teithio nôl mewn amser.

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Deinosor ydw i yn hyn o beth a dydw i ddim yn eu defnyddio.

Beth sy'n gwneud i chi wenu? Pethau sili.

Swydd tase chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol? Dwi'n hapus iawn bod yn awdur, diolch!

Top tip i ddarpar awduron Peidio poeni – jyst ysgrifennu! Gallwch chi wastad ei wella wedyn.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government